**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS(2)-02-04(min)**

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 4 Chwefror 2004 |
| **Amser:** | 9.00am tan 12.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn bresennol:** | Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | |
|---|---|
| David Melding **(Cadeirydd)** | Canol De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Rhian Huws Williams | Prif Weithredwr, Cyngor Gofal Cymru |
| Mario Kreft | Aelod o Gyngor Gofal Cymru |
| Carol Nørdström | Aelod o Gyngor Gofal Cymru |
| Mutale Nyoni | Cadeirydd, Cyngor Gofal Cymru |
| Judith Paget | Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru *(a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili)* |
| Mike Ponton | Cyfarwyddwr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru |
| Andy Williams | Is-gadeirydd Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru *(a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Powys)* |
| **Swyddogion yn bresennol** | |
| Chris Burdett | Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Dr Huw Jenkins | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Iechyd i Blant a Phobl Ifanc |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru |
| Dr David Salter | Uwch Swyddog Meddygol |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr Adran Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Prif Arolygwr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirpwry Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau a datganiadau buddiant

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**Eitem 2: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Every Child Matters"** ***(9.05 – 10.00am)***
**Papur: HSS(2)-02-04(p.1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad a oedd yn nodi'r hyn y llwyddodd Llywodraeth y Cynulliad i'w gyflawni yn ystod y tair blynedd diwethaf ac i ba gyfeiriad yr oeddynt am fynd yn y dyfodol. Roedd yn cadarnhau ymrwymiad y Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen i bolisïau sy'n cael eu llunio ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Roedd hefyd yn egluro saith amcan craidd Llywodraeth y Cynulliad sydd wrth wraidd gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

2.2 Amlinellodd Gwenda Thomas gylch gorchwyl ac aelodaeth y tîm y byddai'n ei arwain i adolygu'r gwaith o ddiogelu plant sy'n agored i niwed. Mae copi wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

2.3 Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau am ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- Cyflwynwyd sylwadau i'r Gweinidog Plant yn Llywodraeth y DU yn nodi y dylai'r Mesur Plant gynnwys diddymu cerydd rhesymol fel amddiffyniad mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol.
- Roedd cynllun peilot wedi'i lansio mewn tair ardal awdurdod lleol i roi gwybodaeth i gynorthwyo plant dan 10 oed. Os byddai'n llwyddiannus, câi ei gyflwyno'n raddol yng ngweddill Cymru.
- Byddai'r Strategaeth Maeth yn canolbwyntio'n bennaf ar blant a theuluoedd mewn cymunedau difreintiedig ac yn amlinellu cynllun gweithredu sy'n targedu plant yn benodol.
- Fel rhan o'r Strategaeth Bwydo o'r Fron, penodwyd cydlynydd bwydo o'r fron i fwrw ymlaen â'r gwaith ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae nifer y merched sy'n bwydo o'r fron wedi cynyddu yng Nghymru.
- Byddai'r Tasglu Tlodi Plant yn cyflwyno'u hadroddiad fis Mawrth.
- Byddai'r cyllid ar gyfer cydweithio hyblyg yn rhoi mwy o gyfle i'r sector gwirfoddol fod yn rhan o'r broses o gynorthwyo rhieni, a byddai'r arian ychwanegol ar gyfer Plant yn Gyntaf yn hwyluso hynny.
- O'r £31m a ddyrannwyd i raglen Plant yn Gyntaf, byddai £660,000 yn cael ei glustnodi ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac anableddau.
- Byddai'n rhaid i'r Cynulliad gadarnhau'r cynllun i ariannu'r gwaith drwy raglen Plant yn Gyntaf, a byddai hyn yn gyfle i fonitro canlyniadau ac effeithiolrwydd yr hyn a wnaed â'r arain.
- Byddai'r Mesur Plant yn rhoi'r un gofynion statudol ar gyrff iechyd ag a roddir ar awdurdodau lleol i nodi cyfarwyddwr gweithredol arweiniol a chyfarwyddwr / aelod anweithredol.
- Byddai dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg plant y gofelir amdanynt.
- Lansiwyd 'Parchu Eraill,' sef canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fwlio mewn ysgolion, fis Medi 2003. Cynigir cyngor ymarferol ar ddatblygu hinsawdd lle nad yw bwlio'n cael ei oddef. Roedd y Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i edrych ar ffyrdd eraill o gynorthwyo plant mewn ysgolion.

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo gydag aelodau eraill y Cabinet a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gael hyd i ffyrdd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.
- Byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad ar weithdrefnau amddiffyn plant, o ystyried y rhyddfarnau diweddar, ar yr un pryd ag y byddai'r Gweinidog dros Blant yn gwneud datganiad yn San Steffan.
- Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt yn San Steffan ar y modd y byddai'r Mesur Plant yn ymdrin â maethu preifat.
- Roedd grp cynghori, yn cynnwys pobl broffesiynol a oedd yn gweithio ym maes iechyd meddwl plant a'r glasoed yn adolygu'r canllawiau a roddwyd i'r Byrddau Iechyd Lleol i wella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed eu comisiynu a'u darparu.
- Roedd y gwaith ieuenctid a oedd yn cael ei ddatblygu drwy Ymestyn Hawliau yn rhoi cryn bwyslais ar waith allgymorth. Dylai'r Strategaeth Digartrefedd a'r strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed hefyd sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei gynnwys.

2.4 Roedd 'Gweithredu'r Hawliau' yn cynnwys nifer o faterion a oedd yn hefyd yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgorau eraill y Cynulliad. Gan hynny, argymhellwyd y dylid annog y Pwyllgorau eraill i ystyried y ddogfen.

## Eitem 3: Adolygiad o'r Rhyngwyneb rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

***(10.00 – 10.55am)***
**Papur: HSS(2)-02-04(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Mike Ponton, Judith Paget ac Andy Williams, a oedd yn cynrychioli Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru

3.2 Cyflwynodd Mike Ponton eu tystiolaeth. Roedd aelodau'r Cydffederasiwn yn croesawu'r adolygiad ac yn cydnabod pwysigrwydd y rhyngwyneb o ran cynllunio yn ogystal ag o ran darparu gwasanaethau. Roedd yr agenda iechyd a lles yn ymestyn y tu hwnt i'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i feysydd ehangach yn ymwneud â thai, datblygu economaidd a thrafnidiaeth. Roedd aelodau'r Cydffederasiwn wedi ymrwymo i ddatblygu cysylltiadau cryf rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac yn credu y byddai partneriaethau'n dyngedfennol i lwyddiant y gwaith. Byddai trefniadau i'r ddau sector reoli ar y cyd yn bwysig a byddai'r aelodau'n cefnogi'r dull cerdyn sgorio cytbwys o weithredu. Roedd Technoleg Gwybodaeth hefyd yn bwysig iawn, a'r systemau hyn fyddai'n pennu ansawdd yr wybodaeth, pa mor berthnasol ydoedd a pha mor hawdd fyddai cael gafael arni.

3.3 Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, gwnaeth cynrychiolwyr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol, yr ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol yng Nghaerffili yn gweitho'n

dda fel partneriaeth ac roeddynt wedi bod yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid ei wneud ar y cyd i ryddhau cleifion o'r ysbyty'n gynt ac i ddarparu gwell cymorth yn y gymuned. Roedd nifer yr achosion o ohirio penderfyniad i ryddhau cleifion o'r ysbyty wedi lleihau'n arw ac roeddynt yn disgwyl cyrraedd y targed a bennwyd yn y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid. Roedd angen adnoddau i wneud hyn, a hefyd ymrwymiad a pharodrwydd ar ran pobl i dderbyn syniadau newydd ynghylch ffyrdd newydd o weithio.

- Croesawyd y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid 5 mlynedd oherwydd roedd yn galluogi'r GIG i gynllunio'n fwy effeithiol.
- Roedd angen newid yr hinsawdd yn sylweddol i hyrwyddo gwaith rhyngwyneb rhwng y GIG a llywodraeth leol.
- Nid oeddynt yn teimlo y byddai codi dirwyon neu daliadau ar awdurdodau lleol yn ddefnyddiol o ran lleihau nifer yr achosion o ohirio trosglwyddo gofal. Dylid pennu targedau a dulliau effeithiol o reoli perfformiad drwy'r GIG a llywodraeth leol i sicrhau bod y ddau sector yn gweithio tuag at yr un amcanion.
- Cyrff cymharol newydd oedd y Byrddau Iechyd Lleol o hyd, ac roedd angen rhyddid arnynt i ddatblygu cysylltiadau â'u partneriaid a strategaeth i gwrdd ag anghenion lleol o fewn fframwaith polisi cenedlaethol, heb i'r Cynulliad lunio gormod o reoliadau.
- Roedd yr ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd eu cyfrifoldebau dros amddiffyn plant o ddifrif ac roeddynt wedi ymrwymo i oresgyn rhwystrau megis ffiniau proffesiynol, rhannu gwybodaeth a materion yn ymwneud â diogelu data.
- Cafodd y Byrddau Iechyd Lleol gyngor a chanllawiau clir gan Lywodraeth y Cynulliad ar lunio cynlluniau gweithredu mewn ymateb i adroddiad Wanless.
- Roedd yn ddefnyddiol i'r Byrddau Iechyd Lleol fod ag aelodau a oedd yn cynrychioli nifer o bartneriaid, ond nid oedd hynny cystal â cynnwys y sectorau hynny'n llawn yn y gwaith.
- Roedd angen deall taith y claf yn well er mwyn sylweddoli natur y cymorth yr oedd ei angen ar wahanol adegau. Yn ôl y dystiolaeth, ymddengys nad oes nifer fawr o gleifion yn cael eu derbyn i ysbyty'n ddiangen yng Nghymru.
- Roedd sawl enghraifft o Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio i reoli salwch cronig o fewn gofal sylfaenol, gan leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai.
- Roedd sawl fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a oedd yn amrywio o raglenni a ariennir yn ganolog fel Arloesi mewn Gofal, sy'n hyrwyddo arferion da i gynadleddau a chyfarfodydd rheolaethol a phroffesiynol. Roedd mentrau penodol i leihau achosion o ohirio trosglwyddo gofal a oedd yn rhoi cyfle i gymharu a rhannu arferion da.

3.4 Dywedodd y Gweinidog efallai y byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld cyflwyniad ar y cerdyn sgorio cytbwys a oedd yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn y GIG yng Nghymru a sut y gellid ei ddefnyddio i asesu perfformiad gofal cymdeithasol. Cytunodd hefyd i rannu'r canllawiau arferion da a luniodd cangen Arloesi mewn Gofal ar gyfer eu cynhadledd flynyddol.

3.5 Gofynnodd y Cadeirydd i Gydffederasiwn y GIG yng Nghymru roi enghreifftiau o arferion da i'r Pwyllgor, unrhyw dystiolaeth a oedd ar gael yn ymwneud â chymhathu strategaethau TG iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â chopi o brotocol rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau plant a ddatblygodd Awdurdod Iechyd Gwent ac a fabwysiadodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Cydffederaswin y GIG yng Nghymru i roi enghreifftiau o arferion da, unrhyw dystiolaeth sydd ar gael ar gymhathu strategaethau TG iechyd a gofal cymdeithasol, a chopi o brotocol rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau plant a ddatblygodd Awdurdod Iechyd Gwent ac a fabwysiadodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili.
- Y Pwyllgor i weld cyflwyniad ar gerdyn sgorio cytbwys y GIG yng Nghymru.
- Copïau o ganllawiau arferion da a luniodd cangen Arloesi mewn Gofal ar gyfer eu cynhadledd flynyddol i gael eu rhannu i'r Aelodau.

**Eitem 4: Cyngor Gofal Cymru *(11.10 – 12.10pm)***
**Papur: HSS(2)-02-04(p.5)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Mutale Nyoni, Rhian Huws Williams, Carol Nørdström a Mario Kreft.

4.2 Cyflwynodd Mutale Nyoni yr Adroddiad Blynyddol, a oedd yn amlygu llwyddiannau allweddol 2002 - 03. Dywedodd fod y cyngor yn dal i esblygu ac y byddai, yn 2003-04 yn ceisio cyfuno agenda'r gweithlu, cofrestru gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yn benodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, a goblygiadau adroddiad Wanless. Dywedodd fod y Cyngor yn hyderus y byddent yn gallu cyflawni eu hamcanion a'u targedau.

4.3 Wrth ymateb i gwestiynau a sylwadau, gwnaeth y Cyngor y pwyntiau a ganlyn:

- Nid oed gan y Cyngor gyfrifoldeb dros reoleiddio lleoliadau gofal cartref. Hyfforddi a datblygu'r staff yn y lleoliadau hynny oedd eu swyddogaeth, er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith.
- Roedd angen codi proffil gofal cartref a chydnabod pwysigrwydd gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain.
- Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, byddai'r Cyngor yn cynorthwyo'r sector gyda'r gwaith o rannu arferion da.
- Byddai rheoleiddio a chofrestru yn ychwanegu at statws y sector.
- Roedd y Cynllun Rhagolwg Sgiliau yn dangos cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer gofal cartref a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.
- Rhoddwyd mwy o bwyslais ar alluogi'r rheini a oedd yn gweithio ar eu pennau eu hunain i ddilyn cyrsiau NVQ.
- Roedd Partneriaethau Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol yn gweithio ar y cyd ar draws yr holl sectorau gofal cymdeithasol. Roeddynt wedi mynd i'r afael â recriwtio a chadw staff ond mewn gwahanol ffyrdd i gyd-fynd â'u hanghenion lleol.
- Gofal cymdeithasol yw un o amcanion allweddol ELWa ar gyfer 2004-05 a byddant yn edrych ar y modd y mae addysg a hyfforddiant yn diwallu anghenion y sector. Mae ELWa hefyd wedi

penodi rhywun i weithio gyda phob Partneriaeth Rhanbarthol.
- Roedd angen cryfhau'r Cynllun Rhagolwg Sgiliau ond roedd yn anodd cael gafael ar wybodaeth gan rannau o'r sector, yn enwedig y sector gwirfoddol a busnesau bach i ganolig.
- Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cyrsiau hyfforddi i weithwyr gofal ac roedd safon a pherthnasedd yr hyfforddiant yn gwella. Byddai'r gradd newydd mewn gwaith cymdeithasol yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r cwrs newydd.
- Cynhaliwyd cyrsiau hyfforddi'n aml ar adegau a oedd yn anaddas ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Roedd ELWa yn gweithio gyda sefydliadau gofal bychain i oresgyn hyn.
- Roedd cyfrifon dysgu unigol ar gael i unrhyw un. Nid oeddynt yn cael eu cynnig i'r sector annibynnol mewn ffordd strwythurol ond efallai y gellid eu defnyddio ar gyfer cyllid i'w dargedu.
- Cyfrifoldeb y cyflogwr oedd sicrhau amodau a thelerau cyflogaeth lle bo hynny'n briodol.
- Yn ogystal â chyflog, roedd boddhad o fath arall i'w gael mewn gwaith gofal cymdeithasol a byddai'r Cyngor yn hyrwyddo hynny.
- Roedd y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn aelodau'r Cyngor yn cyfranogi'n llawn ac yn cael cymorth i wneud hynny. Roeddynt yn cael hyfforddiant cynefino ac yn mynd ar gyrsiau'n rheolaidd i'w cynorthwyo i wneud y gwaith.
- Cofrestrwyd tua 500 o'r 3000 o weithwyr cymdeithasol yng Nghymru er Mehefin 2003. Roedd y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r sector hwn i'w hannog i gofrestru.
- Y Cyngor Gofal oedd yr unig gorff rheoleiddio yng Nghymru a oedd wedi ceisio sefydlu model cofrestru datganoledig mewn partneriaeth â gweddill y DU i sicrhau safonau. Roedd cyrff rheoleiddio mewn rhannau eraill o'r DU yn cael gwybod am unrhyw rai na chafodd eu cynnwys ar y gofrestr.

4.4 Dywedodd y Gweinidog byddai arian ar gael o fis Hydref 2003 ymlaen i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio am gymhwyster gwaith cymdeithasol yng Nghymru neu Loegr.

**Eitem 5: Mesur Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus (Cymru)** ***(12.10 – 12.20pm)***

5.1 Yn Nhy'r Argwlyddi ar 16 Ionawr cafwyd ailddarlleniad o'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus (Cymru) a gynigiwyd gan y Farwnes Finlay. Byddai'r mesur yn rhoi pwerau i'r Cynulliad wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.

5.2 Roedd pryder ymhlith yr Aelodau nad oedd Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu penderfyniad a wnaeth y Cynulliad ar 22 Ionawr 2003 ac wedi cyflwyno Mesur. Roedd y Pwyllgor yn unfryd o blaid egwyddorion y Mesur. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Farwnes Finlay yn rhoi gwybod iddi am farn y Pwyllgor.

5.3 Dywedodd y Gweinidog ei bod hefyd wedi trefnu i Gabinet y Cynulliad drafod y mater.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Farwnes Finlay i roi gwybod iddi fod y Pwyllgor o blaid egwyddorion y Mesur.

**Eitem 6: Blaenraglen Waith *(12.20 - 12.25pm)***
**Papurau: HSS(2)-02-04(p.3)**

6.1 Cytunwyd ar flaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer Ionawr - Ebrill 2004. Sylwyd bod y posibilrwydd o gynnal sesiwn dystiolaeth ar adolygiad y Pwyllgor o'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn cael ei ystyried.

**Eitem 7: Cofnodion *(12.25pm)***
**Papurau: HSS(2)-08-03(min)**

7.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ioanwr 2004.

**Annex A**

I have been appointed to lead a review of the progress that has been made in safeguarding vulnerable children in Wales. This review will look at current policies and practices, to:

- consider whether they are sufficiently clear and robust to deliver safe and effective services in authorities and agencies;
- identify strengths and areas for improvement;
- consider the effectiveness of organisational and cross-boundary arrangements in safeguarding children, including the effectiveness of existing arrangements for the recording and sharing of information, taking into the account the findings of inquiries into the Soham case;
- consider the risks and opportunities posed by the Internet and new technology in safeguarding children; and
- recommend to the Welsh Assembly Government the actions needed to strengthen policies and practice for safeguarding children.

Other members of the team include:

- Joe Howsam, Director of Social Services for Caerphilly;
- Christine Walby, former Director of Social Services for Staffordshire and Chair of Children in Wales;
- Carys Graham, Paediatrician;

- Ruth Hanke, Barrister and specialist in childcare law;
- Ray Ciborowski, Director in Wales, Barnardos;
- Sally Holland, University College of Wales, Cardiff;
- Andrew Edwards, Acting Assistant Chief Constable of Dyfed Powys;
- Mike de Val, Director of Education, Torfaen County Borough Council; and,
- Meirion Hughes, Chair of Denbighshire Local Health Board.
- A member of the team from Local Government who brings a corporate governance and modernisation perspective to the Review, to be nominated through the WLGA

In collecting evidence the team will talk to providers of services, the Children’s Commissioner and to children and young people. We will present our report in a year’s time.